

# DANGOSFWRDD RHWYDWAITH ARDDANGOS

## Medi – Tachwedd 2018

### Sgôr RAG

■ Coch ■ Melyn ■ Gwyrdd

<b>Gwyrdd</b>	Prosiectau a digwyddiadau yn cwrdd â'r targed
---------------	---

### Rhwydwaith Arddangos

Safleoedd arloesedd	8
Safleoedd arddangos	12
Safleoedd ffocws (cyfanswm cronus)	114

### Digwyddiadau'r Rhwydwaith Safleoedd Arddangos


I Medi – 30 Tachwedd 2018

Disgrifiad	Cyfanswm Digwyddiadau (Targed blynyddol)	Cyfanswm y Digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod
Digwyddiadau Safleoedd Arloesedd	32	3
Digwyddiadau Safleoedd Arddangos	36	13
Focus Site events	54	26

**1039** O FYNICHWYR MEWN DIGWYDDIADAU SAFLE ARDDANGOS



Mae'r map isod yn dangos y digwyddiadau a gynhaliwyd ledled Cymru sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith safleoedd arddangos:



Cliciwch yma i ddarllen mwy am brosiectau a digwyddiadau sy'n digwydd ar ein rhwydwaith arddangos.

### Prosiectau ar Fferm

#### Mynd i'r afael â Ffrwythlondeb Pridd

Ar fferm arddangos Llysun, defnyddiwyd canlyniadau dadansoddiad pridd manwl i wneud newidiadau i'r arferion rheolaeth ar y fferm. Y cyngor a roddwyd gan yr agronomegydd annibynnol, Mark Tripney oedd y dylid profi pridd ar gyfer calsiwm, boron a sodiwm, yn ogystal â'r dadansoddiad arferol o pH, ffosforws, potasiwm a magnesiwm. Roedd y canlyniadau'n dangos diffyg boron, sy'n effeithio ar y modd y mae calsiwm yn cael ei gludo i'r planhigyn glaswellt. Gwasgarwyd gwrtaith gyda boron ar gyfradd o 0/75kg/ha, gan gynyddu lefelau o isel i arferol.

Mae pH cyfartaledd priddoedd ar fferm Llysun yn 5.9, sy'n cyfyngu ar eu gallu i gyflawni'r cynnyrch targed o 10tDM/ha. Mae calch yn cael ei wasgaru bob blwyddyn ar 20% o'r fferm er mwyn dod â'r lefel pH yn agosach at 6.5. Mae gwaith ymchwil yn dangos am bob £100 sy'n cael ei wario ar galch, ceir mantais o £700 drwy well twf glaswellt.



#### Canolbwyntio ar leihau llygredd amaethyddol

Cynhaliwyd digwyddiad ar safle ffocws Shordley Hall yn edrych ar yr achosion penodol o lygredd sy'n digwydd yn nalgylch Pulford Brook. Ar ôl trafod y rheoliadau SSAFO ac NVZ presennol, bu Keith Owen, ADAS, wedyn yn trafod y cyngor ymarferol ynglŷn â chamau posibl y gellir eu cymryd ar ffermydd i leihau achosion o lygredd. Roedd y camau a argymhellwyd yn cynnwys:

- Dargyfeirio a gwahanu dŵr glân a dŵr budur yn effeithiol
- Gwella strwythur y pridd i leihau'r tebygolrwydd o ddŵr ffo
- Cyfrifo cyfaint slyri i sicrhau dulliau rhagweithiol i'w reoli'n llwyddiannus
- Cynllunio rheoli maetholion



## Canolbwyntio ar Fetys Porthiant

Cynhaliwyd digwyddiad gyda Marc Jones, sy'n ffermio 500 erw yn Trefnant Hall ar Ystâd Powis. Mae Marc yn cynyddu allbwn ar system fetys porthiant yn seiliedig ar borthiant, sydd â photensial i gyflawni mwy na 20 tonn DM/ha.

Mae'r gwartheg yn pori'r betys porthiant o ddiwedd mis Hydref, gan sicrhau cynnydd pwysau byw cyfartalog o 1kg/anifail. Mewn blwyddyn gyfartalog, gellir cyflawni elw net o £300/anifail ond mae'r tywydd eithriadol o sych yr haf hwn wedi arwain at leihad o £100/anifail. Mae 20ha yn cael ei dyfu bob blwyddyn i gadw 300 o wartheg blwydd oed am bum mis ynghyd â 600 o ddefaid am ddeufis. Mae'r gwartheg yn bwyta 3kg DM o silwair y dydd ac oddeutu 9kg DM o fetys porthiant. O safbwynt deunydd sych, betys porthiant yw'r cnwd rhataf i'w dyfu, yn costio tair i bedair gwaith yn llai na silwair.



## Canolbwyntio ar ffrwythlondeb y fuches sugno

Mae'r prosiect cydamseru a fu'n canolbwyntio ar fanteision posibl cydamseru gwartheg er mwyn sicrhau patrwm lloia tynnach a chynyddu pwysau byw bellach wedi dod u ben ar Fferam Gyd, un o safleoedd ffocws Cyswllt Ffermio ger Llanbabo, Ynys Môn. Roedd y canlyniadau sganio yn dangos bod 77% o'r 55 buwch a gafodd eu cynnwys yn y grŵp naill ai'n gyflo ar ôl cael tarw am y tro cyntaf, a oedd yn fwy na'r targed gwreiddiol o 60%.

Roedd y grŵp a oedd wedi'u cydamseru wedi dod â llo o fewn 12 diwrnod, gyda 14 o'r gwartheg yn lloia o fewn cyfnod o 12 awr. Er bod hyn yn drwm o ran llafur, ac yn gofyn am lawer o le yn y sied, roedd y fferm yn ffafrio'r dull hwn o'i gymharu â chyflwyno i'r tarw yn naturiol, a oedd yn golygu bod y cyfnod lloia'n parhau am gyfnod hwy. Cafodd y lloia eu gwerthu'n 7-8 mis oed, yn pwysu 31kg/llo yn fwy ar gyfartaledd o'i gymharu â lloia y llynedd, oedd werth £820 am yr heffrod a'r bustych ar gyfartaledd.



## Cyfathrebu'r canlyniadau

Mae cyfathrebu canlyniadau'r gwaith a wneir ar y rhwydwaith arddangos yn hanfodol. Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio sawl dull i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn gallu manteisio ar y wybodaeth a geir o ganlyniad i gwblhau prosiectau gan gynnwys:

- Erthyglau: 19 wedi cael eu creu
- Blogiau a Blogiau Fideo I ddarparu diweddariadau ar weithgaredd safleoedd – 6 wedi cael eu paratoi
- Cyfryngau cymdeithasol  
Diweddariadau Facebook: 10  
Diweddariadau Twitter: 9
- Fideo: 2
- Ymweliadau â'r Wefan  
Safle Arloesedd: Saesneg 247, Cymraeg 41  
Safle Arddangos: Saesneg 586, Cymraeg 85  
Safle Ffocws: Saesneg 1,173, Cymraeg 214



## Rhai o'r uchafbwyntiau ar ein Gwefan a'n safleoedd Cyfryngau Cymdeithasol yn ddiweddar...

Facebook 08/11/2018

### Betys porthiant yn cynyddu allbynnau ar system yn seiliedig ar borthiant ar fferm ym Mhowys

Mae ffermwr biff o Gymru yn sicrhau'r allbwn gorau am bob hectar trwy bori gwartheg ar fetys porthiant. Mae Marc Jones, sy'n ffermio 500 erw ar fferm Trefnant Hall ar Ystâd Powis gyda'i rieni, David a Jane, yn cynyddu allbynnau ar system yn seiliedig ar borthiant; mae betys porthiant, sydd â photensial i gynhyrchu mwy na 20 tonn o ddeunydd sych (DM)/ha yn ganolog i'r cynnydd hwn.

Darllenwch fwy yma... <http://bit.ly/2PhhnIH>



**Cyrhaeddiad: 5,465 Wedi gwyllo clipiau fideo: 1,573 Ymgysylltiad: 53**

Facebook 12/09/2018

### Sicrhau bod digon o fwyd ar gael yn allweddol er mwyn gwneud penderfyniadau yn gynnar ar ffermydd yng Nghymru

Mae ffermwr da byw yng Nghymru wedi lleddfu unrhyw brinder bwyd posibl drwy ddefnyddio polisi o fesur twf glaswellt yn rheolaidd a dadansoddi'r ffigurau gyda meddalwedd fferm i wneud penderfyniadau deallus.

Darllenwch fwy... <http://bit.ly/2QpKc9m>



**Cyrhaeddiad: 3,113  
Ymgysylltiad: 1,341**

